



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mr Simon Dean
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Uned 2 Cwrt Charnwood
Parc Nantgarw
Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QZ

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

26 Hydref 2011

Annwyl Mr Dean,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas a hysbysiad bod yr
Adolygiad ar ben**

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag Argymhellion 4 (gwybodaeth bersonol cleifion) ac 8 (amgylchedd y ward) o'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'.

Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r trydydd ymateb, sef yr un olaf, yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan.

Fel y gwyddoch, yn sgil y trydydd ymateb gofynnais am ragor o eglurhad gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ynghylch y math o sgriniau a fydd yn cael eu defnyddio i atal gwybodaeth bersonol cleifion rhag cael ei rhannu pryd bynnag y bo modd. Gofynnais hefyd am amserlen ar gyfer yr adolygiad o 'ddylunio cynhwysol', gan bennu pa bryd y caiff ei gynnal

a pha bryd y disgwylir i'r gweithgor gwblhau ystyried yr argymhellion a fydd yn cael eu gwneud gan y sefydliad arbenigol allanol. Ymatebodd yr Ymddiriedolaeth yn brydlon i'm cais ac mae'r wybodaeth wedi'i rhoi.

Rwy'n fodlon ar drydydd ymateb Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae'n ymdrin yn fanylach â'r materion y gofynnais am ragor o wybodaeth amdany'n nhw.

Gan fod eich trydydd ymateb wedi bodloni fy nghais am wybodaeth a fydd yn fy narbwyllo y cydymffurfir â phob un o'm hargymhellion, mae'r Adolygiad swyddogol fel y mae'n ymwneud ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre bellach ar ben. Bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod fy argymhellion i a chynllun gweithredu Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn troi'n realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio cyfarfod â chi yng ngwanwyn 2012 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud a chyfleoedd i rannu'r arferion gorau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn yr hoffech eu trafod, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 08442 640670 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,

A handwritten signature in purple ink that reads "Ruth S. Marks". The signature is written in a cursive style and is underlined with a single horizontal line.

Ruth Marks, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru